Profion histogydnawsedd trallwysiad platennau – gwybodaeth i gleifion

Efallai y bydd angen trallwysiad platennau ar rai cleifion fel rhan o'u triniaeth. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn ymateb yn dda ac yn cael llai o symptomau gwaedu pan fyddant yn cael trallwysiadau o blatennau o'r stoc arferol yn y banc gwaed. Gelwir y rhain hefyd yn blatennau safonol.

Nid yw cyfran fach o gleifion yn ymateb cystal i blatennau safonol. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen platennau arbenigol, dethol ar gyfer rhai o'r cleifion hyn. Os oes angen platennau wedi'u dewis yn arbennig ar glaf fel rhan o'u cynllun triniaeth, bydd angen prawf gwaed histogydnawsedd ymlaen llaw.
Defnyddir platennau arbenigol hefyd ar gyfer rhai cleifion sy'n debygol o fod angen trallwysiad platennau gydol oes.

Beth sy'n digwydd os nad yw fy nghyfrifiad platennau yn gwella yn dilyn trallwysiad?

Os dywedir wrthych fod gennych gyfrif platennau isel yn dilyn trallwysiad platennau gall hyn fod oherwydd bod eich corff yn dinistrio'r platennau yr ydych wedi'u derbyn. Mae sawl rheswm pam y gallai hyn ddigwydd. Un o'r rhain yw oherwydd efallai bod gennych wrthgorff yn eich gwaed sy'n adweithio ag antigenau lewcocyt dynol (HLAau) neu antigenau platennau dynol (HPAau) ar wyneb y platennau sydd wedi'u trallwyso. Mae HLA a HPA yn broteinau normal a geir ar wyneb platennau.

Byddwch wedi etifeddu eich math o HLA a'ch math o HPA gan eich rhieni. Mae llawer o wahanol fathau o HLAau. Oherwydd hyn, mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r platennau a gewch fel arfer yn dod gan roddwyr y mae eu math o HLA yn wahanol i'ch un chi. Gall hyn fod yn broblem os oes gennych wrthgyrff HLA yn eich gwaed. Mae gwrthgyrff HLA yn cael eu gwneud gan system imiwnedd eich corff a gallant ddinistrio platennau a roddir i chi o'r trallwysiad. Efallai y bydd gennych wrthgyrff HLA os ydych yn flaenorol wedi:

- cael trallwysiad gwaed
- derbyn trawsblaniad
- bod yn feichiog

Drwy brofi eich gwaed ar gyfer gwrthgyrff HLA (a HPA), bydd hyn yn ein helpu i adnabod ai dyma'r rheswm nad ydych yn ymateb yn dda i drallwysiadau platennau safonol.

Mae dau brawf y bydd y labordy'n eu cynnal yn gyntaf, teipio HLA a phrofion gwrthgorff HLA. Bydd angen teipio HPA a phrofion gwrthgorff HPA ar rai cleifion hefyd.

Teipio HLA a HPA

Bydd eich math o HLA (a HPA) yn cael ei brofi gan ddefnyddio sampl o'ch DNA, a gawn o'ch sampl gwaed.

Profion gwrthgorff HLA a HPA

Gan ddefnyddio sampl ar wahân o'ch gwaed rydym yn profi ar gyfer gwrthgyrff HLA (a HPA). Gall gwrthgyrff HLA (a HPA) ymddangos, diflannu ac ailymddangos dros amser, felly efallai y bydd angen i chi ddarparu mwy o samplau os oes angen trallwysiadau platennau rheolaidd arnoch dros gyfnod hir o amser. Bydd eich samplau ychwanegol yn caniatáu i ni wirio a oes unrhyw wrthgyrff wedi ffurfio yn eich gwaed.

Bydd canlyniadau eich profion yn cael eu rhoi i'ch meddyg. Efallai y byddwn hefyd yn anfon copïau o'ch canlyniadau at y staff gofal iechyd eraill sy'n eich trin (er enghraifft, nyrsys

arbenigol) ac i unrhyw ysbytai eraill y gallech drosglwyddo iddynt yn y dyfodol. Bydd eich labordy profi hefyd yn cadw copïau o'r canlyniadau.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'ch meddyg, i benderfynu a oes angen i chi dderbyn platennau a ddewiswyd yn arbennig.

Bydd y labordy yn storio eich samplau yn dilyn profion rhag ofn y bydd angen mwy o brofion arnoch yn y dyfodol.

A fydd angen platennau dethol HLA a HPA arnaf?

Os yw canlyniadau eich profion yn dangos bod gennych wrthgyrff HLA a / neu HPA, efallai y bydd angen i chi dderbyn platennau dethol HLA neu HPA. Os felly, byddwn yn dewis platennau gan roddwyr gwaed y mae eu math HLA/HPA yn addas i chi. Bydd hyn yn golygu na ddylai eich gwrthgyrff HLA/HPA ymateb gyda'r platennau a ddewiswyd yn arbennig. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai eich ymateb i drallwysiadau platennau wella. Mewn achosion prin, efallai na fydd hyn yn digwydd ac efallai y bydd angen mwy o brofion arnoch i weld a oes rhywbeth arall sy'n effeithio ar y trallwysiadau hyn. Oherwydd yr anhawster o ddewis platennau, gall rhoddwyr addas, ar adegau, fod yn anodd dod o hyd iddynt. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'ch meddyg i reoli eich triniaeth yn effeithiol.

Effeithiolrwydd trallwysiadau platennau

Mae'n bwysig i ni wybod pa mor dda rydych chi'n ymateb i bob trallwysiad. Bydd hyn yn ein helpu i fesur eich ymateb a hefyd yn sicrhau nad ydych yn cael trallwysiad nad oes ei angen arnoch. Gan ddefnyddio samplau gwaed a gymerwyd gennych cyn trallwyso ac o fewn 1 awr ar ôl y trallwysiad, rydym yn mesur eich cyfrifiad platennau. Mae'n bwysig eich bod yn cael y samplau hyn fel y gallwn sicrhau eich bod yn cael y driniaeth a'r gofal trallwyso gorau.

Beth sy'n digwydd i'm samplau gwaed?

Pan fydd eich holl brofion wedi'u cwblhau ac nid oes bellach angen y samplau sydd gennym, efallai y byddwn yn defnyddio eich samplau ymhellach, ond heb eich adnabod, yn ein profion i helpu cleifion eraill fel chi. Efallai y byddwn yn defnyddio eich samplau:

- i wirio bod ein profion yn gweithio'n gywir (rheoli ansawdd).
- i'n helpu i brofi gweithdrefnau newydd a all wella gofal cleifion ymhellach.
- i addysgu a hyfforddi staff gofal iechyd (e.e. meddygon, nyrsys a gwyddonwyr)
- ar gyfer ymchwil (yn dilyn cymeradwyaeth briodol gan bwyllgor moeseg)

Mae hyn yn ein helpu i gynnal gweithdrefnau profi cywir, a gwella ein gwybodaeth, i ddarparu'r gofal gorau posibl i chi a'r holl gleifion eraill yr effeithir arnynt yn yr un modd.

Os nad ydych am i ni ddefnyddio eich samplau at unrhyw un o'r dibenion uchod, rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg neu'r person sy'n cymryd eich gwaed (neu'r ddau). Byddwn yn parchu eich dymuniadau ac yn gwaredu unrhyw samplau nad oes eu hangen arnom mwyach.

Nid yw'r wybodaeth hon yn disodli'r canllawiau a ddarperir gan eich tîm clinigol sy'n eich trin.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwasanaeth Gwaed Cymru ar 01443 622126.

Gwasanaeth Gwaed Cymru

0800 252266

welsh-blood.org.uk

Diogelu data

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cadw cofnodion o'r holl brofion a gyflawnir a'r cyngor y mae'n ei gynnig i'ch tîm gofal iechyd, i redeg ei wasanaeth yn effeithlon ac yn ddiogel. Bydd eich data'n cael ei gadw'n ddiogel ac yn unol â'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

GGC Cyf: 126E Fersiwn 2 02/22

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre Velindre University NHS Trust